Mick McGuire
Cyfarwyddwr - Sectorau a Busnes
Yr Adran Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

11 Mai 2017

**Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd**

Annwyl Mr McGuire,

Trafododd Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion ein hadroddiad ar Lywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd yn ystod y cyfarfod ar 8 Mai.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod 10 o'r 11 argymhelliad wedi cael eu derbyn. Fodd bynnag, o ran **Argymhelliad 7** a dderbyniwyd mewn egwyddor, mae eich ymateb yn honni bod paragraffau 1.3 a 4.4 o God y Gweinidogion yn darparu diogelwch digonol yng nghyd-destun enw da Llywodraeth Cymru. Cafodd y Pwyllgor, yn achos Kancoat, nad oedd y mesurau diogelwch presennol yn ddigon cadarn o ystyried nad oes unrhyw dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r modd y bu i'r Gweinidog ar y pryd ystyried unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried, pe byddai tystiolaeth o'r fath wedi bod ar gael i Lywodraeth Cymru, y byddai wedi bod yn effeithiol o ran gwrthbrofi'r awgrymiadau a ddilynodd yn y cyfryngau i'r Gweinidog ar y pryd fynd yn groes i God y Gweinidogion.

Ysgrifennaf atoch felly i ofyn am sicrwydd pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch ymdrin yn y dyfodol â gwrthdaro canfyddedig a all ddigwydd y tu hwnt i ffin wirioneddol etholaeth Gweinidog.

Hoffwn hefyd gael cadarnhad ynghylch nifer o faterion eraill.

O ran **Argymhelliad 1**, byddai'r Pwyllgor yn croesawu dyddiad mwy penodol yn hytrach na haf 2017 mewn perthynas â phryd y disgwylir cwblhau'r adolygiad o'r adran ac, yn yr un modd, hoffai'r Pwyllgor gael eglurhad diwygiedig ynghylch diffiniad 'deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch'. O ran **Argymhelliad 10**, mae eich ymateb yn nodi y caiff y canllawiau mewnol eu diweddaru erbyn diwedd mis Ebrill 2017. A allwch gadarnhau a yw hyn wedi'i gwblhau?

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb, a gan mai'r Prif Weinidog sy'n gyfrifol am God y Gweinidogion, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol, a James Price, y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol dros Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**